Barn yr Arholwr

Gallwch, i raddau helaeth, ddarganfod eich canlyniad terfynol trwy wrando ar lais profiad. Gwaith yr arholwyr yw rhoi marciau i chi, nid eu cymryd i ffwrdd, ond nid ydynt yn gallu eich helpu os ydych yn syrthio i mewn i'r trapiau mwyaf cyffredin. Dyma'r peryglon mwyaf yr ydynt wedi eu nodi:

- **Ddim yn darllen y papur yn gywir**

Yn ôl yr Arholwyr dyma un o'r camgymeriadau mwyaf cyffredin a dinistriol. Maent yn ei alw yn 'ateb wedi ei sbarduno'. Mae gennych ateb ar gyfer y cwestiwn wedi ei baratoi ymlaen llaw, ond rydych heb edrych yn union ar ofynion y cwestiwn, ac felly rydych yn rhoi'r wybodaeth anghywir yn eich ateb.

- **Nid ydych yn gorffen y papur**

Gall cam-amseru mewn arholiad arwain at golli gradd lawn. Y 'drosedd' mwyaf yw peidio ag ymdrechu ateb cwestiynau addas. *Cofiwch: mae'n llawer haws i gael yr 20% cyntaf o'r marciau ar gyfer unrhyw gwestiwn na'r 5% olaf.* Felly, os byddwch yn ei chael hi'n anodd wrth i chi geisio ateb y trydydd cwestiwn allan o bump, peidiwch â threulio gweddill yr amser yn ceisio ymestyn a pherffeithio'r ateb hwnnw. Yn lle hynny, symudwch ymlaen i gwestiynau pedwar a phump, hyd yn oed os yw eich ymgais wedi'i fraslunio neu ar ffurf pwyntiau. Os ydych wedi ateb dim ond tri chwestiwn yn unig yn hytrach na phump, y marc uchaf y gallwch ei gael yw 60%.

- **Anwybyddu'r cynllun marcio**

Mae'n rhaid i chi gymryd y cynllun marcio i ystyriaeth wrth i chi neilltuo amser i bob cwestiwn neu ran o gwestiwn. Os bydd y marciau a ddyrennir i gwestiwn yn dangos yn glir bod ychydig o baragraffau yn ddigonol, peidiwch ag ysgrifennu traethawd ar y pwnc. Osgowch y demtasiwn o ysgrifennu popeth yr ydych yn ei wybod am bwnc - rhowch y maint priodol o wybodaeth yn unig.

- **Ailadrodd**

Gwnewch y pwynt unwaith. Nid oes unrhyw farciau ychwanegol ar gyfer ailadrodd ffeithiau, hyd yn oed os ydych yn eu cyfleu nhw yn wahanol. Dywed Arholwyr bod ailadrodd yn gamgymeriad cyffredin iawn. Mae hefyd yn gwastraffu amser ac yn cythruddo'r arholwr.

- **Rhan o gwestiwn sydd ar goll**

Weithiau, gall rhan o gwestiwn barhau ar y dudalen nesaf ac, yn ystod pwysau'r foment, nid ydych yn ei weld. O ganlyniad, efallai y byddwch yn methu ag ateb rhan orfodol o gwestiwn neu'n colli allan ar y cyfle i geisio ateb opsiwn a fyddai wedi bod yn fwy addas. Dylech bob amser ddarllen y papur yn ofalus i ymgyfarwyddo â'r papur cyfan cyn dechrau ateb y cwestiynau.

- **Dyfyniadau amherthnasol**

Mewn pynciau llenyddol, peidiwch â defnyddio dyfyniadau amherthnasol yr ydych wedi eu dysgu, gan ei fod ond yn cythruddo'r arholwr.

- **Gwaith bras**

Dylech gynnwys eich gwaith bras gyda'ch sgript arholiad - efallai y byddwch yn cael rhywfaint o gredyd ar gyfer fformiwlâu neu gyfrifiadau a gynhwysir ynddo.